

## **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cynllun Toiledau Cymunedol - Cwestiynau cyffredin**

### **Beth yw'r cynllun toiledau cymunedol?**

Mae'r Cynllun Toiledau Cymunedol yn cael ei ariannu a'i reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae'n caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio cyfleusterau toiled i gymeradwyo busnesau lleol yn ystod eu horiau agor.

Mae busnesau sy'n cofrestru ar gyfer y cynllun yn cytuno i wneud eu toiledau ar gael i'r cyhoedd am ddim heb unrhyw ddisgwyliad y bydd defnyddwyr yn prynu neu'n defnyddio eu gwasanaethau. Bydd yn ofynnol i aelodau'r cynllun gadw eu toiledau yn ddiogel, glân, hygyrch ac wedi eu stocio'n dda a byddant yn derbyn taliad blynyddol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i uchafswm o £500 (pro rata).

### **Beth yw'r manteision i fusnesau sy'n ymuno â'r cynllun toiledau cymunedol?**

Mae busnesau sy'n rhan o'r cynllun toiledau cymunedol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn cael eu hybu fel lleoliad toiledau cymunedol.

Mwy o ymwelwyr yn y busnes wrth i fwy o bobl fynd i mewn i'r eiddo a gallent brynu neu ddefnyddio'r gwasanaeth.

### **Sut ydw i'n ymgeisio i ymuno â'r cynllun toiledau cymunedol ar y cyd?**

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â'r cynllun yn Sir Conwy, llenwch y ffurflen gais isod.

### **Beth fydd yn digwydd nesaf?**

Pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen gais wedi'i llenwi, bydd swyddogion yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau yn cysylltu â chi i drafod y cais ac asesu addasrwydd i ymuno â'r cynllun.

Mae'r meini prawf asesu yn cymryd i ystyriaeth oriau agor, lleoliad, pellter i doiledau cyhoeddus a busnesau eraill ar y cynllun, math, cyflwr ac ansawdd cyfleusterau toiledau a pholisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas a chyfredol.

Wrth ymuno â'r cynllun, mae'n rhaid i fusnesau:

- Bod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol.
- Arddangos arwydd yn ffenestr y busnes, a ddarparwyd gan y Cyngor, gan nodi cyfranogiad yn y cynllun toiledau cymunedol.
- Cytuno i gael eu harchwilio o leiaf unwaith y flwyddyn, i asesu addasrwydd parhaus ar gyfer aelodaeth y cynllun.

**This document is also available in English.**

**Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen ar gael drwy gais.**

## Cais ar gyfer Cynllun Toiledau Cymunedol

Enw'r busnes		
Cyfeiriad y busnes		
Enw perchennog / rheolwr / cynrychiolydd y busnes		
Rhif ffôn cyswllt		
<b>Nifer a math o doiledau ar gael</b>		
Gwryw		
Benyw		
Unrhywiol / niwtral o ran rhywedd		
Cyfleusterau newid babi	Oes / Nag oes	
Mynediad i'r anabl / cadeiriau olwyn		
<b>Oriau agor y busnes</b>		
Agored drwy'r flwyddyn neu dymhorol (gaeaf / haf yn unig) - nodwch os gwelwch yn dda		
Dydd Llun		
Dydd Mawrth		
Dydd Mercher		
Dydd Iau		
Dydd Gwener		
Dydd Sadwrn		
Dydd Sul		

Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i llenwi at:

Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cynllun Toiledau Cymunedol, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN

Neu ei hanfon dros e-bost at: [affch@conwy.gov.uk](mailto:affch@conwy.gov.uk)